# CYNGOR GWYNEDD

## Rôl a chyfrifoldebau Aelod o Bwyllgorau Craffu

| | |
|---|---|
| **1) ATEBOL I** | • Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol<br>• Y Cyngor Llawn |

| | |
|---|---|
| **2) SWYDDOGAETHAU PENODOL** | 2.1 <u>Cyfranogiad</u><br>• Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y Pwyllgor Craffu, datblygiad a chyflawniad ei raglen waith a Gweithgorau Gwella perthnasol.<br><br>2.2 <u>Adolygu a llunio polisïau</u><br>• Helpu i greu, datblygu, gwella a mireinio polisïau'r Cyngor.<br>• Herio polisïau ar sail tystiolaeth gadarn.<br>• Asesu effaith polisïau cyfredol.<br><br>2.3 <u>Dal y Bwrdd i gyfrif, monitro perfformiad a threfniadau darparu gwasanaeth.</u><br>• Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau perthnasol, gan gynnwys cwestiynu a herio Arweinyddion Portffolio ac uwch swyddogion.<br>• Helpu i nodi a lleddfu unrhyw risgiau.<br>• Adnabod ac ymchwilio tangyflawniad ac argymell gweithrediad priodol.<br>• Monitro cynnydd ar argymhellion<br>• Asesu dilysrwydd penderfyniadau'r Bwrdd a'u herio lle'n briodol.<br><br>2.4 <u>Hyrwyddo gwaith craffu</u><br>• Hyrwyddo swyddogaeth trosolwg a chraffu yn y Cyngor a thu allan iddo, gan feithrin cysylltiadau mewnol ac allanol effeithiol.<br>• Arddangos dull craffu gwrthrychol, ar sail tystiolaeth briodol.<br>• Ychwanegu gwerth at y broses penderfynu a threfniadau darparu gwasanaethau'r Cyngor trwy waith craffu effeithiol.<br><br>2.5 <u>Arwain y gymuned</u><br>• Dal cyrff cyhoeddus eraill i gyfrif.<br>• Datblygu'r egwyddor o atebolrwydd o fewn cyrff cyhoeddus a phartneriaethau<br>• Defnyddio gwaith craffu i fynd i'r afael â materion yn y gymuned ac ymgysylltu â'r cyhoedd.<br>• Annog budd-ddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu.<br>• Llunio polisïau lleol ymarferol a derbyniol sy'n addas i Wynedd.<br>• Hyrwyddo trafodaeth ymhlith cymunedau a budd-ddeiliaid am flaenoriaethau, amcanion a pherfformiad.<br><br>2.6 <u>Cymryd rhan mewn cyfarfodydd</u><br>• Paratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd (e.e., trwy ymchwil, ymholiadau, darllen y rhaglen ac adroddiadau, mynychu cyfarfodydd paratoi).<br>• Cymryd rhan mewn modd rhagweithredol ac effeithiol, yn ôl gwybodaeth berthnasol, gan gymryd i ystyriaeth y Côd Ymddygiad, y Rheolau Gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill.<br>• Cynnal y pwyllgor yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| **3) GWERTHOEDD** | 3.1 Ymrwymo i werthoedd y Cyngor ac egwyddorion ymddygiad aelodau.<br><br>Gwerthoedd y Cyngor<br>• Parch<br>• Gweithio fel tîm<br>• Gwerth am arian<br>• Gwasanaethu<br>• Positif<br><br>Egwyddorion ymddygiad aelodau<br>• Anhunanoldeb<br>• Gonestrwydd<br>• Uniondeb a Priodoldeb<br>• Cynnal y gyfraith<br>• Stiwardiaeth<br>• Gwrthrychedd mewn penderfyniadau<br>• Cydraddoldeb a pharch<br>• Bod yn agored<br>• Atebolrwydd<br>• Arweinyddiaeth |